

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar
30 Tachwedd 2023
Cynhaliwyd yn 3.7, CQ2 ac yn electronig dros Microsoft Teams
Ffrydiwyd yn fyw dros y Rhyngrwyd**

Yn Bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Dirprwy Gadeirydd
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)
Hefyd yn Bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Sarah Brewer	(SB)	Rheolwr Ymgysylltu â Chyflogeion (ar gyfer eitem 3 yn unig)
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol
Rhian Gleed	(RG)	Porffor, Cyd-Gadeirydd y Rhwydwaith
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl

Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Janet Mellowship	(JMe)	Rydym yn Gofalu, Cyd-gadeirydd y Rhwydwaith
Leah Morantz	(LM)	Pennaeth Cyfathrebu
Tamsin Ramasut	(TR)	Arsylwr
Amy Stabler	(AS)	Porffor, Cyd-gadeirydd y Rhwydwaith
Neil Stoodley	(NS)	Pennaeth Deallusrwydd, Gwerth ac Effaith Ariannol (ar gyfer eitem 4.3)
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Rachel Attwood	(RA)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu (ar gyfer eitem 3)
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid (ar gyfer eitem 4.3)
Ymddiheuriadau:		
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Claire Sullivan	(CS)	Cynrychiolydd y Staff

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00

PHW 2023.11.30/1	Croeso ac Ymddiheuriadau
<p>Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwylio'r trafodaethau ar-lein. Nododd mai'r Bwrdd yw Corff Llywodraethu'r sefydliad, sydd â chyfrifoldebau penodol dros: bennu'r cyfeiriad strategol; creu a chynnal partneriaethau strategol; pennu'r parodrwydd i dderbyn risgiau strategol a'u goruchwylio; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau; cynnal trefniadau llywodraethu da a phennu naws a diwylliant y sefydliad.</p> <p>O ran naws a diwylliant, roedd y Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu, lle y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru, pe bai rhywbeth yn mynd o'i le, yn ymddiheuro, yn mynd ati i gywiro'r sefyllfa ac yn gwneud gwelliannau i'r dyfodol. Roedd y Bwrdd am i bawb ddod i'r gwaith a bod y fersiwn mwyaf triw a gorau o'u hunain, heb ofni anfantais neu wahaniaethu o unrhyw fath, gan gynnwys unrhyw fath o ymddygiad ffobig. Roedd hyn yn annerbyniol ym marn y Bwrdd ac anogodd JW unrhyw un sy'n destun gwahaniaethu o'r fath i ddefnyddio'r prosesau sydd ar gael i dynnu sylw ato. Gofynnodd hefyd i unrhyw un sy'n gweld/clywed am unrhyw wahaniaethu o'r fath i adrodd yn ei gylch, oherwydd ni ddylai unrhyw un ddiodef unrhyw anghyfiawnder.</p>	

Roedd y Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn unol â Chod Ymddygiad ffurfiol; roedd hyn yn cyfeirio at ddarllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, er mwyn gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i drafod ar ddiwrnod y cyfarfod. Roedd y Bwrdd hefyd yn dilyn Gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cydweithio Gydag Ymddiriedaeth a Pharch er Mwyn Gwneud Gwahaniaeth.

Yna crynhodd JW yr eitemau ar yr Agenda.

Nododd y Bwrdd yr **ymddiheuriadau** gan John Boulton a Claire Sullivan.

PHW 2023.11.30/2

Datgan Buddiannau

Gofynnodd JW am Ddatganiadau o Fuddiannau ar wahân i'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datgan Buddiannau. Nid chafwyd unrhyw ddatganiadau.

PHW 2023.11.30/3

Rhwydweithiau Staff

PHW 2023.11.30/3.1

Rhwydwaith Rydym yn Gofalu

Estynnodd JW groeso cynnes i gyd-gadeiryddion y Rhwydweithiau Staff Rydym yn Gofalu a Porffor (Rhwydweithiau); roedd y diweddariadau gan y Rhwydweithiau yn rhan o raglen ymgysylltu'r Bwrdd gyda'r holl Rwydweithiau ac roedd yn dilyn y diweddariadau a ddarparwyd gan y Rhwydweithiau Enfys a REACH yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2023. Nododd JW rôl allweddol y Rhwydweithiau o ran cefnogi staff a chyflawni cyfrifoldebau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rhoddodd JW wahoddiad i Janet Mellowship, un o gyd-gadeiryddion y Rhwydwaith Rydym yn Gofalu, i wneud cyflwyniad. Gan ddefnyddio cyfres o sleidiau, tynnodd JMe sylw at gyflawniadau allweddol y Rhwydwaith Rydym yn y Gofalu hyd yn hyn:

- Cynhaliwyd pum sesiwn wedi'u rheoli, yn cwmpasu amrywiaeth o faterion, gan gynnwys: Atwrneiaeth Arhosol; cefnogi llesiant drwy ioga; a gweithio gyda'r Rhwydwaith Staff Enfys ar brofiadau LHDTTC+;
- Defnyddiwyd dyraniad cyllideb y Rhwydwaith i gofrestru â Cyflogwyr i Ofalwyr, sef sefydliad cymorth;
- Codwyd £700 ar gyfer y Gymdeithas Alzheimer, drwy gymryd rhan mewn taith gerdded;
- Sefydlwyd sesiynau 'dysgu dros ginio' i reolwyr;
- Ychwanegwyd gwerth at Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gymryd rhan mewn rhwydweithiau polisi; gwaith cyfeirio; a chefnogi staff sydd hefyd â chyfrifoldebau gofalu.

Rhannodd JMe ei phrofiadau personol o fod yn ofalwr sy'n gweithio a rhannodd ystadegau diddorol, gan dynnu sylw at yr amcangyfrif bod 104,000 o ofalwyr sy'n gweithio yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod hyn yn arbed cyfanswm o £8.1 miliwn bob blwyddyn i'r economi mewn costau gofal yn unig. Ar hyn o bryd, mae 45 o aelodau gan y Rhwydwaith Rydym yn Gofalu, ac mae gan nifer mwy o gyfrifoldebau gofalu, y tu allan i aelodaeth y Rhwydwaith.

Roedd y Cynllun ar gyfer 2024/25 yn cynnwys datblygu Polisi Gofalwyr, parhau â chyfarfodydd y Rhwydwaith a'r sesiynau 'dysgu dros ginio', a digwyddiadau i godi profil gofalwyr sy'n gweithio yn ystod yr Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin 2024.

Yn olaf, nododd JMe yr hyn y mae'r Rhwydwaith Rydym yn Gofalu yn dymuno ei gael gan y Bwrdd:

- Cefnogaeth i ddatblygu Polisi Gofalwyr;
- Gwaith Datblygu Sefydliadol i gasglu profiadau gofalwyr sy'n gweithio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a sut y gallent gael mynediad at gefnogaeth well a mwy cyson;
- Cefnogaeth o ran cyfathrebu i sicrhau bod gwaith y Rhwydwaith yn cyrraedd yr holl staff.

Estynnodd JW ei diolch i JMe am gyflwyniad llawn gwybodaeth. Gwahoddodd PV i ychwanegu unrhyw sylwadau pellach fel Noddwr Gweithredol y Rhwydwaith; diolchodd PV i JM am y cyflwyniad ac am ei gwaith rhagorol fel cyd-gadeirydd; roedd yn cefnogi'r hyn a ofynnir gan y Bwrdd yn 2024/25.

Yna gwahoddodd JW gwestiynau:

Diolchodd TC i JMe am ei chyflwyniad pwerus a myfyriodd ar y gofynion emosiynol a seicolegol ychwanegol ar staff sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd. Croesawodd y cynnig i gynnal gwaith datblygu sefydliadol a gefnogir; gofynnodd a allai'r arolwg staff ganfod yr holl staff hynny a oedd yn ofalwyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn aelodau o'r Rhwydwaith eto o bosibl; cydnabu hefyd yr angen i godi ymwybyddiaeth ymysg y rheolwyr.

Roedd NL o'r farn bod y cyflwyniad a gwaith y Rhwydwaith yn ysbrydoledig a chadarnhaodd ei gefnogaeth lawn i'r gofynion o ran cymorth datblygu sefydliadol.

Cynigiodd IB gefnogi'r gwaith o ddylunio a dosbarthu'r arolwg staff i ganfod y niferoedd sydd â chyfrifoldebau gofalu.

Camau Gweithredu: TM/IB

Nododd CB yr amrywiaeth o waith sydd ar y gweill ledled GIG Cymru sy'n ymwneud ag eiddilwch; gelai fod cyfleoedd o fewn y gwaith hwnnw i amlygu rôl gofalwyr sy'n gweithio yn fwy eang byth ar draws y system iechyd a gofal.

Gofynnodd SG a oedd y Rhwydwaith wedi ystyried y staff sy'n gofalu am blant yn ogystal â'r rhai sy'n gofalu am aelodau hŷn y teulu. Dywedodd JMe fod y Rhwydwaith, hyd yn hyn, wedi canolbwyntio mwy ar y staff sy'n cefnogi aelodau hŷn o'r teulu ond cydnabu'r angen i gynnwys y staff hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant a phobl ifanc.

Wrth ddiolch i JMe am y cyflwyniad a'r gwaith a wnaed gan y Rhwydwaith, nododd JW ddiddordeb sylweddol aelodau'r Bwrdd yn yr agenda gofalwyr a chadarnhaodd gefnogaeth y Bwrdd ar gyfer rhaglenni gwaith 2023/24.

PHW 2023.11.30/3.2

Rhwydwaith Porffor

Rhoddodd JW groeso i Rhian Gleed ac Amy Stabler, cyd-gadeiryddion Rhwydwaith Porffor; rhoddodd wahoddiad iddynt ddiweddarau'r Bwrdd ynghylch rôl Porffor a'r hyn a ofynnir gan y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Defnyddiodd AS ac RG gyflwyniad sleidiau i:

- Amlinellu'r gwaith a wnaed gan y Rhwydwaith hyd yn hyn. Roedd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o ganser y coluddyn ac ADHD a hefyd y gwaith i gefnogi gweithwyr anabl. Cyfeiriodd AS at Ddiwrnod Rhyngwladol Gweithwyr Anabl ar gyfer 2023 a gynhelir ar 3 Rhagfyr;
- Amlinellu uchelgais y Rhwydwaith Porffor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddai'r ffocws ar sicrhau gweithle cynhwysol i bawb; dealltwriaeth well o anableddau anweledig; anghenion hygyrchedd staff anabl; a phrosesau recriwtio hygyrch a theg;
- Egluro'r manteision ychwanegol i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sgil datblygu gweithle cynhwysol sy'n cefnogi pobl ag anableddau - byddai diwallu anghenion y staff yn gwella rôl y sefydliad o ran cefnogi pobl ag anableddau ar draws ei wasanaethau a'i swyddogaethau.
- Y gofynion cyfreithiol o ran addasiadau rhesymol, a'u manteision i'r sefydliad, gan gynnwys gweithio hybrid. Roedd Pasbort y Gweithle yn cynnig manteision o ran amlygu unrhyw addasiadau sydd eu hangen i sicrhau bod pobl anabl yn gallu gweithio heb rwystrau. Rhannodd RG ei phrofiadau personol o weithio i Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel aelod o staff ag anabledd, a'r effaith arni.

- Pwysigrwydd cyfarpar hygyrch ac opsiynau TG i fodloni gofynion penodol, er enghraifft ffontiau hygyrch, y defnydd o liw, a hyfforddiant ar y Cofnod Staff Electronig sydd mewn fformatau hygyrch.
- O ran recriwtio, sicrhau bod y broses recriwtio a chyfweld yn cydnabod problemau fel lleoliad, materion niwroamrywiaeth a allai effeithio ar berfformiad mewn cyfweliad, a mynediad i gymorth ychwanegol yn ystod y broses, ac yn mynd i'r afael â nhw.

Y gofynion a nodwyd oedd:

- Y gallai'r staff ofyn am addasiadau rhesymol yn hawdd a heb ragfarn,
- Bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dod yn gyflogwr delfrydol o ran hygyrchedd;,,
- Datblygu'r broses recriwtio i sicrhau tegwch ac enw da mewn perthynas â hygyrchedd, i annog ceisiadau gan bobl sy'n byw gydag anabledau.

Cydnabu JW arwyddocâd yr agenda a amlygwyd gan RG ac AS a chymeradwyodd y naill gyd-gadeirydd a'r llall am fod mor agored wrth rannu eu profiadau personol yn y gweithle; mae hyn wedi ychwanegu at rym y cyflwyniad sleidiau a chydabu'r Bwrdd bwysau'r gofynion.

Fel Noddwr Gweithredol ar gyfer y Rhwydwaith, tanlinellodd IB rym dysgu o brofiadau personol, a'r parodrwydd i rannu hyn; estynnodd ei ddiolch i'r cyd-gadeiryddion am y cyflwyniad.

Yna gwahoddodd JW sylwadau.

Roedd HG yn gwerthfawrogi rôl y Rhwydwaith o ran cynorthwyo'r sefydliad i wella hygyrchedd a chael gwared ar rwystrau. Cynigiodd gymorth gyda'r gwaith sydd ar y gweill, gan fyfyrion ar y broses gyfweld ddiweddar, lle roedd ymgeisydd wedi gwneud cais am addasiadau rhesymol. Cydnabu HG fanteision y Rhwydwaith Porffor o ran mynd i'r afael â cheisiadau o'r fath a hefyd o ran ystyried arddulliau gwahanol y prosesau cyfweld.

Estynnodd TC ei diolch am y cyflwyniad a chydabu rôl y Rhwydwaith dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys drwy gyfnod y pandemig. Diolchodd i RB am ei pharodrwydd i rannu profiadau gwael blaenorol a chydabu'r rôl arwyddocaol y mae Porffor a'r Rhwydweithiau yn ei chwarae o ran sicrhau y gall staff gael mynediad i gymorth ac addasiadau cyson a phriodol.

Myfyriodd DC ar y cyfraniad y gallai'r Rhwydweithiau ei wneud o ran cynorthwyo Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithredu rôl arweinyddiaeth systemau ar draws eu meysydd portffolio.

Gan ddiolch i'r cyd-gadeiryddion eto am rannu eu profiadau, cyfeiriodd JW at werth sicrhau llinell glir o'r Bwrdd i'r staff a'r gwasanaethau rheng flaen; roedd gwaith yr holl Rwydweithiau Staff yn rhan hanfodol o hyn. Cadarnhaodd JW y byddai'r Rhwydweithiau Staff sy'n weddill yn gwneud cyflwyniadau i'r Bwrdd yn gynnar yn 2024. Awgrymodd y dylid gofyn i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol weithredu'r rôl sicrwydd ar ran y Bwrdd llawn.

Cytunodd y Bwrdd y byddai'n cefnogi'r gofynion a gyflwynwyd gan y Rhwydweithiau Rydym yn Gofalu a Porffor ac yn **trosglwyddo'r** rôl sicrwydd a'r rôl o ddiweddarau'r Bwrdd llawn ynghylch y cynnydd a wneir i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl.

Camau Gweithredu: PV/MM/NL

PHW 2023.11.30/4

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

PHW 2023.11.30/4.1

Adroddiad y Prif Weithredwr

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, tynnodd TC sylw at:

- Y cynnydd yn y gweithgaredd ar draws y sefydliad i baratoi ar gyfer Modiwl 2B; roedd hyn yn ymwneud â'r penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru a byddai'n digwydd rhwng mis Chwefror a chanol mis Mawrth 2024, gan ddilyn y modiwlau 2 a 2A presennol (yn ymwneud â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban).
- Y rôl y byddai hi ac eraill yn ei chwarae ym Modiwl 2B, gan nodi y byddai'n darparu tystiolaeth gorfforaethol ac fel tyst unigol. Cyfeiriodd at benderfyniad y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth ar 28 Tachwedd i gymeradwyo ei phenderfyniad i gamu'n ôl o'i rôl o 24 Ionawr nes y bydd wedi cwblhau ei thystiolaeth. Byddai HG yn gweithredu fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol yn ystod yr amser hwnnw ac estynnodd TC ei diolch iddo.
- Ychwanegodd PV fanylion am y newidiadau gweithredol, o ymateb y bwrdd rhaglen i ymateb busnes arferol drwy grŵp llywio (y byddai ef yn Noddwr Gweithredol iddo). Cadarnhaodd fod Arweinydd Ymateb Cyfreithiol wedi'i benodi ac roedd tîm o 12 o bobl yn ymateb i'r holl fodiwlau gweithredol. Diweddarodd PV y Bwrdd ynghylch y costau ariannol, gyda'r gwariant yn



2022/2023 yn dod i gyfanswm o £174,000.00 ac roedd y gwariant wedi'i gyllidebu ar gyfer 2023/2024 yn £712,000.00 (a oedd yn cynnwys 6 wythnos o Wrandawiadau Cyhoeddus Modiwl 1 yn ogystal ag ystyried gwrandawiadau cyhoeddus Modiwl 2B yn y Flwyddyn Newydd) gyda'r costau mewnol ac allanol yn cael eu cynnwys. Amlinellodd PV ei ddisgwyliad y byddai nifer o dystion yn cael eu galw i roi tystiolaeth ar ran y sefydliad. Byddai hyn yn golygu casglu llawer iawn o dystiolaeth, i'w chyflwyno yn agos iawn at ddechrau'r Gwrandawiadau Cyhoeddus.

- Atgoffodd JW y Bwrdd fod y pandemig Covid-19 wedi ysgwyd pawb pan ddechreuodd yn gynnar yn 2020; byddai canlyniadau iddo dros genedlaethau yn ychwanegol at y rhai sy'n cael eu profi ar hyn o bryd. Bu Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth galon yr ymateb i Covid-19 yng Nghymru ac roedd ganddo lawer o wybodaeth am yr hyn a ddysgodd i'w rhannu â Thîm yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Nododd un o'r gofynion yn y cylch gorchwyl y byddai'r gwersi a ddysgwyd o'r Ymchwiliad yn sail i'r paratodau ar gyfer pandemigau yn y dyfodol ledled y DU. Roedd angen amser paratoi cyn y gwrandawiadau ar TC, Quentin Sandifer, ac unrhyw dystion eraill. Aeth JW ymlaen i grynhoi trafodaethau'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, gan gyfleu ei diolch i HG, NL ac AW am eu parodrwydd i gamu i'r bwlch yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hwn yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol ac roedd gan y Bwrdd rwymedigaeth i sicrhau bod yr holl dystion yn gallu cynnig eu tystiolaeth orau. Nododd JW y byddai pawb sy'n cael eu galw i roi tystiolaeth o'r fath yn cael cefnogaeth ac amser i baratoi.
- Yna tynnodd TC sylw at eitemau 2 a 4 o'i hadroddiad, yr oeddent ill dau yn ymwneud â gweithgareddau ymchwil eang eu natur. Roedd sefydlu ymchwil ymddygiadol yn y DU (ar ôl cyllid ychwanegol o £13 miliwn gan y cyngor ymchwil economaidd a chymdeithasol) ynghyd â sicrhau dyfarniad cyllid dros 3 blynedd o £500,000 gan Raglen 'Shaping Places' y Sefydliad Iechyd yn cyfleu pa mor llwyddiannus yr oedd gweithwyr proffesiynol Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran denu cyllid ymchwil. Estynnodd TC ei llongyfarchiadau i bawb a oedd yn rhan o'r gwaith o sicrhau'r cyfleoedd ymchwil pwysig hyn.
- Amlygodd TC y broses o symud gwasanaethau genomeg Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyfleuster newydd - Canolfan Iechyd Genomig Cymru. Roedd hyn yn ganlyniad dros 5 mlynedd o waith a thros £15 miliwn o gyllid gan y Llywodraeth, a dynnodd ynghyd arbenigedd genomig Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Phrifysgol Caerdydd. Ychwanegodd MK ragor o fanylion ynghylch y cyfleoedd mawr y byddai'r cyfleuster newydd hwn yn eu cynnig ac roedd yn edrych ymlaen at dwf parhaus genomeg, at ddibenion diagnostig ac iechyd cyhoeddus, o fewn y GIG yng Nghymru. Nododd JW y

byddai hi ac MK yn ymuno â'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn ymweliad i'r ganolfan ar 7 Rhagfyr 2023.

Yna gwahoddodd TC sylwadau ar ei hadroddiad:

- Croesawodd SG y gwaith da a nodwyd yn yr adroddiad, o ran cyllid ymchwil, Canolfan Iechyd Genomig Cymru a llwyddiant y tîm Hyb Cymorth ACE (profiadau iechyd ceiswyr lloches a ffoaduriaid) yn sgil ennill gwobr effaith ymchwil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn cynhadledd flynyddol ddiweddar. Arddangosodd y cyflawniadau hyn oll y rôl y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i chwarae, nid yn unig ar lefel y DU, ond yn rhyngwladol ac estynnodd ei llongyfarchiadau gwresog i bawb a gymerodd ran.
- Nododd JM y byddai derbyn cyllid gan y Sefydliad Iechyd yn galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithio'n agos gyda'r cyfarwyddwyr iechyd cyhoeddus a llywodraeth leol i ddatblygu dulliau system wedi'u hysbysu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Byddai'r rhaglen yn seiliedig ar gyd-gynhyrchu, ac yn cynnwys nifer o bartneriaid, ac roedd JM yn ei weld fel camau cyntaf y cynllun i gynyddu buddsoddiad y Sefydliad Iechyd yng Nghymru. Byddai'n hysbysu'r Bwrdd ynghylch unrhyw gynnydd a wnaed.

Camau Gweithredu: (JM)

Nododd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chafodd sicrwydd** o'r Adroddiad a'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd.

PHW 2023.11.30/4.2

Y Trosolwg Diweddaraf o Iechyd Cyhoeddus

Gan gyfeirio at Ddangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd Cyhoeddus, tynnodd IB sylw at y canlynol:

- Y ffaith fod gallu'r system gyffredinol i ymateb wedi cyrraedd penllanw, ond nododd yr amrywiadau ar draws perfformiad byrddau iechyd a'r goblygiadau ar gyfer tymor y gaeaf i ddod.
- Parhad yn nifer y marwolaethau ychwanegol sy'n adlewyrchu patrwm cyson mewn perthynas â diabetes, clefyd y galon, clefyd cylchrediad y gwaed, clefyd yr iau a chlefydau anadlol.
- Y duedd ddigymffwrdd mewn perthynas â'r holl ddangosyddion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad iach a'r heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â newid y duedd honno.

- Manteisiodd IB ar y cyfle i atgoffa'r Bwrdd bod cynnwys y data ar ddiabetes mewn fersiynau cynharach o'r dangosfwrdd wedi hybu ffocws ar draws y system ar helpu pobl i atal diabetes math 2 a byw'n dda gyda'r cyflwr. Amlinellodd IB yr ymgysylltiad ar draws y system, gan gynnwys ymgysylltiad Bwrdd Arweinyddiaeth y GIG a'r Rhwydwaith Clinigol Diabetes; roedd yn edrych ymlaen at gyflwyniad pellach i Fwrdd Arweinyddiaeth y GIG ym mis Rhagfyr 2023. Ychwanegodd JW fanylion ynghylch y bwriad i gyflwyno'r gwaith i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn y cyfarfod nesaf gyda hi yn gynnar yn 2024.
- Gohirio data marchnad lafur y Swyddfa Ystadegau Gwladol islaw lefel y DU; arweiniodd hyn at yr angen i ganfod ffynonellau data amgen. Nododd dadansoddiad o ddata Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi ddarlun digyfnewid mewn perthynas â'r farchnad lafur.
- Fel trosolwg, amlygodd IB yr heriau ar draws y system mewn perthynas â'r gallu i ymateb, ynghyd â'r diffyg symudiad ar draws y duedd mewn perthynas ag ymddygiad iechyd.

Trafododd a chraffodd y Bwrdd ar yr Adroddiad Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym a **chafodd sicrwydd** o'r adborth a'r sylwadau.

PHW 2023.11.30/4.3

**Adroddiad Integredig ar Berfformiad (Mis 7),
 Adroddiad Cyllid a'r Gofrestr Risgiau Strategol**

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Integredig, nododd HG y gwaith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu'r Dangosfwrdd yn barhaus, gyda'r nod cyffredinol o ddarparu gwybodaeth glir am berfformiad, gan gysylltu â gwaith y Pwyllgorau a chyfeirio ato.

Mae gwaith mireinio diweddar yn golygu bod y Dangosfwrdd bellach yn nodi'r materion allweddol ar gyfer pob elfen o'r Adroddiad, ynghyd â doler i wybodaeth fanylach. Roedd hyn yn dileu'r angen i'r Arweinwyr Gweithredol dreulio amser yn crynhoi materion allweddol, sy'n rhoi mwy o amser i'r Bwrdd ystyried a thrafod materion pwysig yn fanwl.

Nododd HG hefyd fod y gwaith mireinio yn adlewyrchu'r Strategaeth Hirdymor a'r cyfeiriad strategol yn fwy eglur ac yn cysylltu â'r strwythurau sefydliadol a systemau sydd ar waith i ysgogi'r ddarpariaeth.

Yna cyflwynodd HG y fformat diwygiedig i aelodau'r Bwrdd, sy'n cynnwys:

- Y crynodeb o'r dangosydd perfformiad, sy'n rhoi crynodeb o'r materion ar un dudalen;

- Dolen uniongyrchol, sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd, i hwyluso'r mynediad i wybodaeth fanwl a data cydymffurfio;
- Gwybodaeth am dueddiadau.

Yna gwahoddodd HG sylwadau a chwestiynau.

Croesawodd MM y gwaith mireinio ar y Dangosfwrdd, gan nodi ei fod yn ei gwneud yn haws nodi materion allweddol a'r cynnydd a wnaed. Cyfeiriodd MM at y cyfraddau cydymffurfio yn erbyn arfarniadau a gofynnodd am ragor o wybodaeth am y rhesymau dros gyfraddau arfarnu isel y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio. Nododd MM fod hyn yn destun adroddiadau rheolaidd ac roedd ganddo ddiddordeb mewn deall mwy amdano.

Rhannodd MK ei siom ynghylch y cyfraddau arfarnu ar gyfer y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio. Eglurodd fod problemau cysoni data posibl, gydag oedi o ran cofnodi arfarniadau a gynhaliwyd ar y Cofnod Staff Electronig. Nododd MK hefyd y cyfyngiadau yn y system mewn perthynas â chydabod ei bod yn bosibl bod gan aelod unigol o staff ddau reolwr llinell, a bod angen i'r ddau allu cynnwys data ar wahân. Roedd MK wedi gofyn i aelod o'i dîm edrych ar yr holl fater o gasglu data a'u cynnwys ar y system Cofnod Staff Electronig.

Yna amlygodd MK y broblem ehangach yn ymwneud â chynllunio swyddi meddygol ac arfarnu rheolwyr; nododd waith Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r angen i'w gysylltu â gofynion y broses 'Fy Nghyfraniad'.

Awgrymodd NL y dylid cyfeirio'r pwnc i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl, yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024, i archwilio 'Fy Nghyfraniad' a'r broses arfarnu ymhellach, gan roi sylw penodol i'r Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio.

Camau Gweithredu: MM/NL

Gofynnodd KE a allai'r Rhwydweithiau Staff ddarparu unrhyw wybodaeth am 'Fy Nghyfraniad' a'r prosesau arfarnu, o safbwynt hygyrchedd a pha mor hawdd ydynt i'w cwblhau.

Crynodd NL y gwaith a wnaeth ei dîm i edrych am welliannau yn y broses ond cytunodd ei fod yn fater o welliant parhaus a dysgu o brofiadau'r staff. Amlinellodd NL y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf i gynnwys y Rhwydweithiau Staff a cheisio eu barn yn ehangach, ac nid ynghylch yr arfarniadau yn unig, ond y systemau a'r prosesau sydd ar waith hefyd i gyflawni yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Cytunodd NL y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Datblygu

Sefydliadol a Phobl yn 2024/25, fel rhan o ddiweddariadau rheolaidd ar ymgysylltiad y Rhwydweithiau Staff.

Camau Gweithredu: MM/NL

Ynghylch y pwynt cyffredinol o gydymffurfiaeth a chan nodi pwynt MK y gallai'r cyfraddau cydymffurfio fod yn fwy na'r rhai a nodir yn y Dangosfyrddau, oherwydd oedi o ran nodi data, gofynnodd JW i HG ymhelaethu ar ddefnydd y Cyfarwyddiaethau o'r Dangosfyrddau i lywio'r camau gweithredu ar gydymffurfio.

Nododd HG y gallai'r Cyfarwyddiaethau ategu'r data a ddarparwyd drwy'r Dangosfyrddau, oherwydd roedd y Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl wedi cyflwyno rhestrau atodol o gyfraddau cydymffurfio. Gallai'r Cyfarwyddiaethau a'r Is-adrannau edrych yn fanylach ar y data, ac roedd y rhain yn cael eu defnyddio mewn trafodaethau un i un fel sy'n briodol.

Nododd TC, o fewn y Cyfarwyddiaethau llai, y gallai nifer fechan o ddatganiadau diffyg cydymffurfio fod wedi cael effaith anghymesur. Gofynnodd am fwy o waith ar y dangosyddion a ddefnyddir, i sicrhau bod gan y Bwrdd y darlun cyfan, gan gynnwys data ar gynllunio swyddi yn ogystal ag ar arfarnu a 'Fy Nghyfraniad'.

Camau gweithredu: NL/HG

Croesawodd MM y cais hwn, gan nodi y byddai darparu data ychwanegol yn hwyluso sgwrs fwy ansoddol. Cytunodd MK â hyn a rhoddodd ragor o fanylion am y gwaith sydd ar y gweill ar gynllunio swyddi, gan gynnwys adroddiadau electronig.

Myfyriodd SA ar ei thrafodaethau 'Fy Nghyfraniad', a'r ffordd y defnyddiodd adrannau gwahanol i gynorthwyo gyda sgwrs ansoddol, yn enwedig o ran iechyd a llesiant unigolion.

Dychwelodd MK at y broses cynllunio swyddi, gan nodi mai hon oedd y brif broses sy'n sail i berfformiad y contract meddygol, yn hytrach na 'Fy Nghyfraniad' neu'r prosesau arfarnu.

Cyfeiriodd NE at yr angen i sicrhau bod y Dangosfwrdd yn adlewyrchu'r holl brosesau sydd ar waith ar gyfer arfarnu staff a rheoli perfformiad, o gofio bod angen i'r Bwrdd roi sicrwydd i'w hunan ynghylch capasiti, gallu a datblygiad y gweithlu.

Cytunodd NL y byddai'n cynnwys yr holl bwyntiau uchod yn y papur at y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024.

Camau Gweithredu: MM/NL

Cyllid

Crynhodd HG y sefyllfa ariannol, gan gyfeirio at y wybodaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2024, gyda chynigion i gyfrannu at y cais cyffredinol am arbedion gan y GIG, yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol heriol. Eglurodd HG sail resymegol dros y wybodaeth a gyflwynwyd ac y cafwyd cadarnhad llafar ei bod wedi cael ei dderbyn. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ragweld sefyllfa ble y byddai'r gyllideb yn cael ei mantoli ac amlinellodd HG y cynlluniau o ran gwariant cyfalaf erbyn diwedd y flwyddyn hefyd.

Risg Llywodraethu Corfforaethol a Gwybodaeth

Nododd HG fod hon yn adran newydd, sy'n darparu gwybodaeth am y gydymffurfiaeth â Pholisiau, Cylchlythyrau Iechyd Cymru ac argymhellion Archwilio. Bu'r lefel hon o fanylion ar gael yn flaenorol ar lefel Pwyllgorau'r Bwrdd ac roedd bellach wedi'i ddyrchafu i'r Bwrdd llawn fel rhan o'r gwaith o fireinio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Gofynnodd MM am y camau gweithredu archwilio allanol sy'n weddill a gofynnodd am ragor o fanylion ar arwyddocâd y rhain.

Nododd PV fod yr Uwch Dîm Arwain yn cynnal arolwg trylwyr ar hyn o bryd o'r camau hyn gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Byddai'r Tîm yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ionawr 2024. O'r pwynt hwnnw, byddai'r Pwyllgor yn cael diweddariadau chwarterol, yn hytrach na dwywaith y flwyddyn, sef y sefyllfa ar hyn o bryd.

Estynnodd JW wahoddiad i AW, cadeirydd yr Uwch Dîm Arwain, ychwanegu at hyn. Eglurodd AW y broses arolygu drylwyr a'r ystyriaeth o geisiadau i newid dyddiadau. Byddai'r Pwyllgor yn cael dadansoddiad manwl yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2024.

Llywodraethu gwybodaeth

Roedd NE yn hoffi'r ffordd y cyflwynwyd y data drwy'r adroddiad cyfan, ac ar gyfer y Risgiau Strategol, roedd hyn yn ffordd ystyrlon iawn o roi trosolwg i'r Bwrdd o'r

risgiau; roedd y crynodeb ar un dudalen yn ddefnyddiol, gyda'r manylion yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad llawn.

Aeth NE ymlaen i ofyn am yr atgyfeiriadau mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, sydd mewn coch ar y dudalen flaen. Nododd CB fod y lliw yn gamgymeriad; yr atgyfeiriadau ar y ddalen flaen oedd y rhai a dderbyniwyd o fewn y mis, ond roedd yr adroddiad yn cynnwys yr holl atgyfeiriadau. Awgrymodd TC y gallai'r adroddiad gynnwys treial cronol, gan amlygu hefyd y rhai a ddaeth i law mewn unrhyw fis penodol.

Camau gweithredu: CB

Darparu Gwasanaethau Sgrinio a Brechiadau

Awgrymodd MM y gallai'r tabl hwn fod yn fwy eglur, gan gynnwys y manylion yn y colofnau ar yr ochr dde.

O ran y targedau sgrinio, nododd MK fod elfennau yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gyfrifol am eu darparu, ac elfennau yr oedd y Byrddau Iechyd yn gyfrifol amdanynt. Tynnodd sylw at yr amrywiad ym mherfformiad y byrddau iechyd ar draws llwybrau cleifion. Roedd hyn yn destun arolwg ar lefel y rhaglen; cyfarfu pob arweinydd â'u cydweithiwr cyfatebol yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn i drafod y ddarpariaeth. Yn y dyfodol, roedd y cynllun yn cynnwys ategu hyn gyda chyfarfod ar lefel y Weithrediaeth gyda phob Bwrdd Iechyd. Byddai cam nesaf yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad yn cynnwys mwy o ddangosyddion canlyniadau ac effaith.

O ran brechiadau, roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl arwain system allweddol, ond nid oedd yn gyfrifol am ddarparu'r rhaglenni brechu.

Roedd NE yn credu bod y fformat yn ddefnyddiol iawn o ran nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau a gofynnodd am fwy o fanylion o'r fath wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Cytunodd TC a phwysleisiodd bwysigrwydd bod yn glir am rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru a rôl y rhai sy'n gyfrifol am hyrwyddo gwelliannau yn y ffigurau.

Cyfeiriodd MK at y llwybrau a'r tueddiadau o ran adfer y gwasanaeth sgrinio, ynghyd â'r amserlenni adfer a amcangyfrifir. Nododd HG y byddai datblygiad Cam 2 o'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn 2024/25 yn adeiladu ar y dangosyddion sydd ar gael yn awr.

Aeth HG ymlaen i'r adran ar gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig; roedd hyn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad erioed, ond roedd mwy o amlygrwydd iddo bellach. Amlinellodd y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir, gan dynnu sylw at nodwedd newydd mewn perthynas â gweithredu Rhaglenni Newid Strategol y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Holodd NE am symud y targedau cerrig milltir i chwarter 4, ac a oedd hyn yn cynrychioli newid yn yr ymdrech a'r ffocws yn ystod y flwyddyn, neu a oedd yn adlewyrchu diwedd y gwaith paratoi. Rhoddodd SA enghreifftiau o'i Chyfarwyddiaeth i ddangos mai'r ail eglurhad oedd yn gywir.

Gofynnodd MM sut y gallai'r Bwrdd fesur ac adlewyrchu gwerth ac effaith cyrraedd y cerrig milltir. Cefnogodd JM hyn, a myfyriodd ar y ffaith bod canlyniadau mesuradwy yn ei faes ef, er y gallai fod yn anodd monitro'r effaith.

Nododd TC mai'r flwyddyn hon yw blwyddyn gyntaf y Strategaeth Hirdymor newydd, a bod y gwaith yn chwarter 4 weithiau'n adlewyrchu'r agenda bartneriaeth.

Nododd JW y cyflawniadau arwyddocaol yn erbyn y cerrig milltir; gofynnodd a allai unrhyw rai o'r cerrig milltir sy'n weddill gael effaith ar ddiwedd y flwyddyn ar gyflawni yn erbyn y swyddogaethau statudol, neu flaenoriaethau Gweinidogol.

Rhoddodd HG sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch cyflawni yn erbyn yr holl swyddogaethau statudol a'r blaenoriaethau Gweinidogol. Os bydd nifer bach o gerrig milltir yn parhau heb eu cyflawni, byddai'r rhain yn ffurfio rhan o raglen gwaith 2024/25.

Estynnodd JW ei longyfarchiadau i'r tîm am ei waith mireinio arloesol pellach ar yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad; roedd y newidiadau wedi ysgogi trafodaeth â mwy o ffocws yn erbyn y dangosyddion allweddol ac roedd yn edrych ymlaen at Gam 2 yn 2024/25.

Ystyriodd y Bwrdd sefyllfa ariannol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31 Awst 2023, a chafodd **sicrwydd** o'r trafodaethau a'r camau gweithredu.

PHW 2023.11.30/4.3

Risgiau Corfforaethol

Wrth gyflwyno'r eitem hon, nododd JW fod y Bwrdd yn ystyried y Risgiau Corfforaethol yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Yna gwahoddodd CB i roi

diweddariad ar y gwaith sydd ar y gweill ar adolygu a diweddaru'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Nododd CB fod nifer o risgiau wedi aros yn ddigyfnewid am beth amser, sy'n dangos pa mor amserol yw'r gwaith diweddaru. Roedd yr holl Gyfarwyddiaethau'n rhan o'r gwaith, ac roedd y ffocws ar wella'r eglurder, mynd i'r afael â'r risgiau, a diweddaru'r broses a'r cynllun. Cyfeiriodd at y manylion a gafodd eu cynnwys ym mhapur y Bwrdd ar y prosesau a fabwysiadwyd, a'r newidiadau gwirioneddol a wnaed, a'r berthynas â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Nododd NE yr angen i groesgyfeirio'r gwelliannau a'r newidiadau a wneir yn erbyn yr holl destun a thablau.

Camau Gweithredu: CB

Nododd MK risg hefyd mewn perthynas â'r camau pellach ar lefel Cyfarwyddiaethau a fyddai'n newid y sgoriau.

Camau Gweithredu: CB/MK

Fe wnaeth y Bwrdd:

- **Ystyried** y fersiwn ddiweddaraf o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- **Cael sicrwydd** ynghylch y broses gadarn a fabwysiadwyd i adolygu'r risgiau sy'n bodoli, nodi risgiau newydd ac archifo'r rhai nad oeddent yn berthnasol bellach.
- **Cael sicrwydd** ynghylch y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Datblygu ar gyfer Rheoli Risgiau.
- **Cael sicrwydd** ynghylch y gwaith o reoli'r Risgiau Corfforaethol ar draws y sefydliad.

PHW 2023.07.27/4.5

Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau

Wrth gyflwyno'r eitem hon, nododd JW fod Pwyllgorau'r Bwrdd yn gweithredu canran sylweddol o rôl y Corff Llywodraethu, gan alluogi i'r trafodaethau ar lefel y Bwrdd llawn ganolbwyntio ar y materion a'r risgiau strategol allweddol. Yna rhoddodd wahoddiad i gadeiryddion y Pwyllgorau amlygu unrhyw faterion yr oeddent yn dymuno eu codi yn ychwanegol at y rhai a nodwyd yn y papurau eisoes.

Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd

Cadarnhaodd SG fod y gwaith ar y Strategaeth Data yn mynd rhagddo'n dda, yn ogystal â'r gwaith a gynlluniwyd ar y newid yn yr hinsawdd. Pwysleisiodd hefyd rôl y Pwyllgor o ran hyrwyddo a chefnogi'r agenda ymchwil a gwerthuso.

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

Tynnodd NE sylw at y cynllun archwilio a'r amserlenni.

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

Cyflwynodd KE ddiweddariad ar ran DC. Tynnodd sylw at risg strategol chwech a'r ffaith bod 5 o'r risgiau strategol yn nwylo'r Pwyllgorau. Nododd y Bwrdd y byddai dyraniad y risgiau strategol yn cael ei gynnwys yn yr arolwg cyflawn y cyfeiriodd CB ato yn gynharach.

Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl

Cadarnhaodd MM nad oedd unrhyw eitemau ychwanegol i'w codi.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad a **chafodd sicrwydd** o ran y cynnwys a'r diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod.

PHW 2023.11.30/5

Eitemau i'w Cymeradwyo

PHW 2023.11.30/5.1

Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Medi a 26 Hydref 2022

Cadarnhaodd y Bwrdd y Cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Rhoddodd PV ddiweddariad ar y Cofnod o'r Camau Gweithredu; nododd fod un ar ddeg o gamau gweithredu i'w cau, ac nid oedd unrhyw gamau ar agor ar hyn o bryd. Estynnodd JW ei diolch i LB am reoli'r Cofnod o Gamau Gweithredu mor effeithiol.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Cofnodion a **nododd** y sefyllfa ynghylch y Cofnod o'r Camau Gweithredu.

PHW 2023.11.30/5.2

Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl - Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl

Cyflwynodd PV Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor i'w gymeradwyo.

Mewn ymateb i ymholiad gan MM, cadarnhaodd JW ei bod wedi cyflawni rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol mewn perthynas â chodi pryderon.

Fe wnaeth y Bwrdd:

- **Ystyried** y newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor;
- **Cymeradwyo'r** Cylch Gorchwyl diwygiedig fel y nodir yn yr adroddiad.

PHW 2023.11.30/5.3

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Wrth gyflwyno'r eitem hon, nododd JW fod yn rhaid i holl sefydliadau GIG Cymru arddangos trefniadau llywodraethu da a chael prosesau gweithredol cadarn ar waith. Roedd trafodaethau blaenorol ag Archwilio Cymru wedi nodi cyfle i gasglu holl brosesau sicrwydd y Bwrdd mewn un ddogfen Fframwaith gynhwysfawr.

Cyflwynodd PV y Fframwaith Sicrwydd Drafft (y Fframwaith); cadarnhaodd ei fod wedi dwyn yr holl wybodaeth berthnasol ynghyd, gan gynnwys: y Fframwaith Llywodraethu; yr Amcanion Strategol; y Risgiau Strategol a'r dolenni byw i ddogfennau a pholisïau allweddol.

Nododd JW mai Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd y corff iechyd cyntaf yng Nghymru i gasglu a chyflwyno'r wybodaeth sicrwydd yn y ffordd hon. Estynnodd ei diolch i PV ac LB am eu gwaith manwl wrth gasglu cyfoeth o wybodaeth o'r fath sy'n ymwneud â llywodraethu. Byddai'r Fframwaith yn ddogfen gyhoeddus a fyddai'n ffurfio un o'r ffyrdd y byddai'r Bwrdd yn dangos ei fod yn agored ac yn atebol.

Gwahoddodd JW gwestiynau a sylwadau:

Roedd NE yn croesawu'r ddogfen, gan ei hystyried yn ddogfen gyfeirio gadarn ac yn offeryn llywio defnyddiol i ddeall sut y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithredu. Croesawodd y dull ymgysylltu a fabwysiadwyd wrth ddatblygu'r Fframwaith.

Ailadroddodd DC sylwadau NEs a gwelodd y Fframwaith fel casgliad diddorol o wybodaeth lywodraethu a fyddai'n cynorthwyo holl aelodau'r Bwrdd.

Estynnodd TC ei diolch hefyd i PV ac LB. Awgrymodd y dylid cynnwys y Fframwaith yn y broses gynefino ar gyfer staff newydd a hefyd ar gyfer yr holl reolwyr.

Fe wnaeth y Bwrdd:

- **Gymeradwyo** a **mabwysiadu** Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

PHW2023.11.30/5.4	Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin
<p>Nododd JW fod Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gweithredu o fewn y Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog; roedd Camau Gweithredu'r Cadeirydd yn galluogi i benderfyniadau gael eu gwneud y tu allan i gylchoedd cyfarfodydd ffurfiol; yna, byddai'r holl Gamau Gweithredu o'r fath yn destun cymeradwyaeth ffurfiol gan y Bwrdd.</p> <p>Fe wnaeth y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r diffyg Camau Gweithredu gan y Cadeirydd;• Nodi un defnydd o'r Sêl Gyffredin: Trosglwyddo (aseiniad) y les ar gyfer swyddfeydd Gweithrediaeth y GIG ym Mharc Bocam, ar 26 Hydref;• Cael sicrwydd ynghylch y defnydd o'r Sêl Gyffredin yn unol ag Adran 8 y Gorchmynion Sefydlog.	
PHW 2023.11.30/6	Eitemau i'w Nodi
PHW 2023.11.30/6.1	Adroddiad y Cadeirydd (28 Medi 2023)
<p>Eglurodd JW ddiben gwneud yr adroddiad hwn yn gyhoeddus, yn unol â'r <i>Protocol ar gyfer Neilltuo Materion i Gyfarfod Preifat o'r Bwrdd (a'r Pwyllgor)</i>, a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2023.</p> <p>Nododd y Bwrdd Adroddiad Preifat y Cadeirydd.</p>	
PHW 2023.11.30/6.2	Blaengynllun y Bwrdd
<p>Nododd y Bwrdd y Blaengynllun.</p>	
PHW 2023.11.30/7	Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd
<p>Byddai cyfarfod nesaf y bwrdd yn cael ei gynnal ar 25 Ionawr 2024.</p>	
<p>Daeth y cyfarfod i ben am 14:00</p>	